

# Gwasanaeth Diolchgarwch

Ar y thema

## Gŵyl Rhif 5

### **Croeso**

**Arweinydd:** Croeso i'n hoedfa o ddiolchgarwch am y Cynhaeaf. Yn ystod y gwasanaeth, rydym yn mynd i feddwl am 5 o eiriau fydd yn helpu ni i ddathlu Gŵyl y Cynhaeaf neu 'Diolchgarwch'. Bydd y geiriau yma yn helpu ni i wybod sut i feddwl, sut i deimlo ac yn ein hannog ni i fynd allan i wneud pethau hefyd.

Beth am wrando a gweld a fyddwch chi wedi cofio'r 5 ar ddiwedd y Gwasanaeth!

I ddechrau, gadewch i ni wrando ar un frawddeg o Salm 8 :

*'O ARGLWYDD, ein brenin,  
mae dy enw di mor fawr drwy'r byd i gyd!  
Mae dy ysblander yn gorchuddio'r nefoedd yn gyfan!'*

### **Arweinydd: Gweddiwn:**

Ein brenin a'n Duw,  
diolch am gyfle i ddod at ein gilydd  
i'th addoli heddiw.  
Bydd yma yn y canol a bendithia ni.  
Gofynnwn hyn yn enw Iesu,  
**Amen.**

### **Emyn 1:**

## **1 Rhyfeddu**

## Llais 1: Rhyfeddu

Ein gair cyntaf yw - **rhyfeddu**. Meddyliwch am bethau mawr yn y byd o'ch cwmpas – mynyddoedd uchel, coed tal neu'r môr mawr: “Waw!” meddech chi, “maen nhw'n rhyfeddol!” Meddyliwch wedyn am rywbeth bach ac ysgafn fel adenydd pili pala neu fysedd bach, bach babi: “Waw!” meddech chi, “maen nhw'n rhyfeddol!” Does neb yn rhyfeddu yn fwy na gwyddonwyr. Maen nhw'n defnyddio telesgop i edrych ymhell, bell i'r gofod, neu yn defnyddio microsgop i fedru gweld pethau bychain, bychain yn fwy clir. “Waw!” meddai'r gwyddonydd, ‘Mae'r byd yn llawn o bethau rhyfeddol!’

Mae'r Beibl yn dechrau drwy restru'r holl fathau o bethau rhyfeddol sydd yn y byd – y ddaear, yr awyr, dŵr, haul, sêr a lleuad, tyfiant gwyrdd ac anifeiliaid, heb anghofio pobol fel chi a fi!

Wrth gwrs, tydy'r Beibl a llyfr gwyddoniaeth cyfoes ddim yn trio ateb yr un cwestiynau. Bydd gwyddonwyr yn trio darganfod sut mae pethau wedi digwydd tra bydd y Beibl yn cynnig rhai atebion pwysig i gwestiynau fel – ‘Pwy neu beth sydd y tu ôl i'r cyfan?’ a ‘Pam ydyn ni yma?’ Dyma'r cwestiynau pwysig mae pennod cyntaf llyfr Genesis, llyfr cyntaf y Beibl, yn ceisio eu hateb.

**Arweinydd:** Gadewch i ni glywed darn o ddechrau Genesis:

**Llais 1:** Yn y Dechreuad:- Darllenwch ddetholiad o adnodau allan o *beibl.net* am stori'r cread neu allan o unrhyw gyfrol arall o straeon beiblaidd sydd ar gael.

**Arweinydd:** Yr hyn sydd yn cysylltu'r Cristion a'r Gwyddonydd yw bod y ddau yn gallu rhyfeddu at y byd anhygoel yma sydd o'n hamgylch ni.

**Arweinydd: Cwis y Creu: 5 o ffeithiau difyr i'w darganfod**  
*(gweler y dudalen ar wahân a'r cyflwyniad Pwynt Pwer)*

## Cwis y Creu : 5 o Ffeithiau Difyr i'w Darganfod

1 Pa blaned sydd â chylchoedd o lwch a cherrig, fel disgen o'i chwmpas? (cliw i chi – mae'n dechrau gydag "S")

2 Y Morfil Glas yw'r anifail mwyaf yn y byd. Ydych chi'n gallu dyfalu beth ydy hyd yr un mwyaf ohonynt (mewn metrau)? A beth ydy ei bwysau (mewn tunelli)?

3 O'r adar sy'n mudo (yn hedfan o Gymru i rannau eraill o'r byd) Môr-wennol y Gogledd (The Arctic Tern) yw'r un sy'n teithio'r pellter mwyaf? Wyddoch chi sawl milltir mae'n teithio mewn blwyddyn?

4 Mae'r tafod yn medru synhwyro pum math o flas. Fedrwch chi eu henwi?

M \_ \_ \_ \_

Ch \_ \_ \_ \_

H \_ \_ \_

S \_ \_

U \_ \_ \_ \_

5 Mae'r ymennydd dynol yn beth rhyfeddol iawn. Ydych chi'n gwybod sut rydym yn cofio wynebau?

**Llais 1:** Mae geiriau Salm 8 yn llawn rhyfeddod. Mae'r person a ysgrifennodd y geiriau yn rhyfeddu wrth edrych i fyny ar yr awyr yn y nos, ac wrth syllu ar y lleuad a'r sêr. Ond y peth mwyaf rhyfeddol i'r Salmydd yw, nid y planedau a'r sêr eu hunain, ond hyn:–

Mae'r Duw sydd yn gyfrifol am roi'r rhain yn eu lle, yn dangos diddordeb mewn pobl bach cyffredin fel ni – “Waw!” – mae hynny yn anhygoel!

*Wrth edrych allan i'r gofod, a gweld gwaith dy fysedd,  
y lleuad a'r sêr a osodaist yn eu lle,  
Beth ydy pobl i ti boeni amdanyn nhw?  
Pam cymryd sylw o un person dynol?*

Nid yn unig fod Duw yn cymryd diddordeb ynom ni, ond mae o'n gwneud i ni deimlo yn bobl sbesial, a rhyfeddol. Mae Salm 8 yn dweud rhywbeth yr ydym wedi ei glywed yn ein stori ‘Yn y Dechreuad’. Rydym ni wedi'n creu yn wahanol i'n gilydd ac yn fwy arbennig na'r holl greaduriaid eraill i gyd. Dim ond ni sydd wedi ein gwneud yn debyg i Dduw. Dim ond ni sy'n medru bod yn ffrindiau arbennig hefo Duw.

**Arweinydd: Gweddi Rhyfeddu**

Wrth i ni weddio, wnewch chi ymateb ar ôl Nefol Dad gyda'r geiriau:- **Rhyfeddwn ac addolwn Di!**

### **Gweddiwn**

Wrth weld lluniau o blanedau yn ymdroelli  
a gweld sêr yn (wincio)? pefrio? arnom o alaethau pell,

Nefol Dad:

**Pawb: Rhyfeddwn ac addolwn Di!**

Wrth weld uchder mawr y mynyddoedd  
ac ehangder mawr y moroedd

Nefol Dad:

**Pawb: Rhyfeddwn ac addolwn Di!**

Wrth weld petalau pob lliw y blodau  
a harddwch brau adenydd y pili pala

Nefol Dad:

**Pawb: Rhyfeddwn ac addolwn Di!**

Wrth weld rhyfeddod unigryw pob person dynol:  
pob un yn dangos i ni ychydig bach o'r hyn wyt Ti.

Nefol Dad:

**Pawb: Rhyfeddwn ac addolwn Di!**

Wrth gofio mai Ti, O Dduw, sydd y tu ôl i bopeth  
a dy fod yn ein cofio a'n caru:

**Nefol Dad:**

**Pawb: Rhyfeddwn ac addolwn Di! Amen.**

**Arweinydd: Emyn 2:**

## 2 Diolch

**Llais 2:** **Diolch** ydy'r ail air sy'n ein helpu i ddathlu'r Cynhaeaf. Pa mor aml ydych chi'n defnyddio'r gair bach yna? Pan yn blant, cawn ein dysgu i ddweud diolch i bobl am bethau bach bob dydd, ac i gofio diolch am anrhegion a gawn adeg y Nadolig neu ben-blwydd. Wrth gwrs, mae bod yn ddiolchgar yn golygu llawer mwy na dweud y gair diolch. Mae'n golygu gwerthfawrogi popeth da sydd gennym, y pethau da sy'n digwydd i chi a phopeth da sy'n digwydd o'ch cwmpas chi.

Mae'r adeg yma o'r flwyddyn yn ein helpu i gofio cymaint o bethau da sydd gennym, ac i roi diolch i Dduw amdanyn nhw.

**Arweinydd:** Beth yw'r pethau da y carech chi ddiolch i Dduw amdanyn nhw heddiw?

**Arweinydd: 5 Gweddi o ddiolch – ar fysedd fy llaw**

**D** am Duw - Ti Dduw yw'r un sy'n haeddu ein diolch

**I** am Iesu - Diolch am Iesu - dy rodd gorau i bob un ohonom

**O** am Ofalu - Diolch am ofalu amdanom: mae gennym fwyd a dŵr, dillad a chartref.

**L** am Lawer – Diolch fod yna lawer o bobl arbennig yn ein bywydau, sydd yn ein caru:– teulu, ffrindiau, teulu'r eglwys, cymdogion ac athrawon

**CH** am chwilio – Helpa ni i chwilio am bethau i ddiolch amdanyn bob dydd a'u mwynhau. Amen.

**Arweinydd: Eryn 3:**

## 3 Pam?

### **Llais 3: PAM?**

Ein trydydd gair heddiw yw'r cwestiwn: **Pam?** Mae 'na lawer o bethau am fywyd nad ydym yn eu deall yn iawn. Yr wythnosau diwethaf yma, wrth wyllo'r newyddion, efallai ein bod yn gofyn: Pam mae corwyntoedd a daeargrynfeydd yn digwydd? Pam y mae Duw yn gadael i bobl ddioddef a chael eu lladd? Mae'r Beibl yn ein dysgu ni fod pethau drwg yn rhan o fywyd bob dydd. Weithiau mae pobl yn dewis gwneud pethau drwg, dro arall mae pethau drwg, fel salwch neu ddamwain, yn digwydd i bobl o'n cwmpas.

Mae rhai o broblemau'r byd yn digwydd am ein bod ni'n byw yn hunanol ac eisiau gormod o bethau da i ni ein hunain.

Mae yna rai pethau sy'n gallu ein helpu gyda'r cwestiynau yma. Rydym yn gwybod fod Iesu yn mynd i ddod â phethau drwg i ben. Bydd amser yn y dyfodol pan fydd pob dioddef a thristwch a chrio yn gorffen. Mae Iesu wedi addo hefyd y bydd gyda phawb sy'n dioddef neu yn drist. Gall Iesu ddefnyddio pobl fel ni i helpu pobl sy'n drist neu'n dioddef.

### **Arweinydd: Gweddiwn :**

#### **Gweddi dros y byd (yn seiliedig ar Salm 13)**

Am ba hyd, Arglwydd,  
y gallwn ni gau ein llygaid i'r penawdau o drais a thrasiedi?

Am ba hyd, Arglwydd,  
y caiff cymunedau Myanmar eu disodli gan anghydfod?

Am ba hyd, Arglwydd,  
y caiff blant y Caribî eu curo gan y corwyntoedd?

Am ba hyd, Arglwydd,



y bydd pobl Mexico yn byw mewn ofn tsunami oherwydd  
daeargrynfeydd?

Am ba hyd, Arglwydd,  
y bydd De Asia yn profi llifogydd dinistriol?

Am ba hyd, Arglwydd,  
y bydd rhaid i enaid dynoliaeth ddiodef poen trawma a cholled,  
a chael tristwch yn ei galon trwy'r dydd?

Ystyria ni ac ateb ni, O Arglwydd ein Duw!  
Rho amddiffynfa i'r holl rai hynny sy'n byw mewn ofn  
marwolaeth.  
Rho nerth i ddyfalbarhau fel na fydd trasiedi yn trechu.  
Rho arweiniad i'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau ar y ddaear.  
Tosturia wrth galonnau sydd wedi eu llethu gan flinder.

Ymddiriedwn yn dy gariad cadarn;  
bydd ein calon yn llawenhau yn dy waredigaeth,  
wrth inni rannu yn dy deyrnas adnewyddol  
gan weddio, gweithredu a rhoi'n hael  
ar gyfer y rhai sy'n gofalu a chyweirio'r  
hyn y mae trais, corwynt, daeargryn a llifogydd  
wedi ei ddinistrio.

Am ba hyd, Arglwydd,  
y deunw a'n gweddïau o alar atat ti?  
Yn enw Iesu Grist, ein Hargwlydd y gweddïwn. Amen.  
(gweddi gan Cymorth Cristnogol)

## 4 Dibynnu

Y pedwerydd gair yw'r Gair:- **Dibynnu**. Pan oedd Iesu yn bwyta gyda'i ddisgyblion, roedd bob amser yn rhoi gweddi o ddiolch am y bwyd oedd o'i blaenau. Dysgodd Iesu weddi i'w ddisgyblion oedd yn cynnwys y geiriau 'Rho i ni ddigon o fwyd i'n cadw ni'n fyw am heddiw.' Rydym yn defnyddio'r un weddi heddiw yn yr Ysgol ac yn yr eglwys – Gweddi'r Arglwydd. Wrth weddio'r geiriau yma rydym yn cofio ein bod yn gwbl ddibynnol ar Dduw am bethau mwyaf syml bywyd – bwyd, diod, cartref a gwres. Ond mae'r weddi yn ein hatgoffa ni hefyd beth yw'r pethau eraill rydym eu hangen gan Dduw - cariad a maddeuant, nerth i fynd ymlaen a help i wybod sut i fyw. Mae'r weddi yn ein hatgoffa hefyd fod Duw yno i wrando arnom a'n helpu ni.

### **Llais 4: Dibynnu**

**Arweinydd:**Gadewch i ni weddio Gweddi'r Arglwydd gyda'n gilydd

**Llais 4:** Ar yr adeg yma o'r flwyddyn, rydym yn cofio hefyd sut rydym yn dibynnu ar ein gilydd.

Bydd y ffermwyr yn tyfu cnydau a llysiau, yn gofalu ar ôl gwartheg godro er mwyn iddynt gynhyrchu llaeth, ac yn magu wŷn a gwartheg ar gyfer cynhyrchu cig. Bydd dosbarthwyr yn cludo'r cynnyrch mewn lorïau i farchnadoedd a siopau; bydd ffatrioedd yn troi'r cynnyrch yn fenyn a chaws neu'n brydiau parod. Bydd y siopwr yn darparu amrywiaeth o fwydydd ar gyfer y cwsmeriaid, a'r siop leol yn sicrhau nad oes raid i ni grwydro o'n hardal er mwyn prynu angenrheidiau bywyd. Adeg y cynhaeaf, rydym yn cofio ein bod ni'n rhan o rwydwaith a phob un ohonom yn ddibynnol ar eraill.

## Arweinydd: Gweddi dros y Ffermwyr

Dad Nefol,  
Diolchwn i Ti am ffermwyr ac am yr oriau o waith maent yn eu rhoi i drin y tir.  
Diolch am bawb sy'n fodlon dal ati drwy bob tywydd i gynhyrchu bwyd ar ein cyfer ac i ofalu am erwau o gefn gwlad Cymru.  
Gofynnwn am dy fendith ar fusnesau o bob math sy'n cyflenwi ein hanghenion, yn enwedig rhai bach lleol.  
Cyflwynwn i Ti bawb sy'n poeni y dyddiau yma beth fydd canlyniadau Brexit i'w busnes a'i bywoliaeth.  
Gweddiwn am sefydlogrwydd yn y farchnad i ffermwyr Cymru a thrwy'r byd.  
Helpa ni werthfawrogi'r holl bobl sy'n gwneud ein bywydau bob dydd yn bosibl.  
Gofynnwn hyn yn enw Iesu,  
Amen.

## 5 Gofalu

**Llais 5:** Ein gair olaf heddiw yw **Gofalu**. Mae Salm 8 yn ein hatgoffa ni o'r hyn y mae stori 'Yn y Dechreuad' yn ei ddweud: Fod Duw wedi rhannu ei ofal dros y ddaear, a'i phobl gyda chi a fi.

*'Rwyt wedi ei wneud yn feistr ar waith dy ddwylo,  
a gosod popeth dan ei awdurdod —  
defaid ac ychen o bob math,  
a hyd yn oed yr anifeiliaid gwylltion;  
yr adar sy'n hedfan, y pysgod sy'n y môr,  
a phopeth arall sy'n teithio ar gerrynt y moroedd.'*

Erstalwm, roedd rhai pobl yn meddwl fod hyn yn golygu fod hawl gyda ni i ddefnyddio holl adnoddau'r ddaear heb boeni am bobl eraill nac am y blaned ei hun. Erbyn hyn, mae Cristnogion

a llawer o bobl eraill meddylgar yn ein byd yn gofyn o ddifrif sut y gallwn ni fyw ar y ddaear yma mewn ffordd sy'n golygu fod pawb yn cael rhan deg o'r bwyd a'r adnoddau. Maen nhw'n gofyn hefyd sut fedrwn ni wneud yn siŵr nad yw ein ffordd o fyw yn gwneud cymaint o ddrwg i fyd Duw o hyn allan.

Beth am i ni feddwl am rai ffyrdd y gallwn ni ofalu am bobl y blaned hon ac am fyd Duw.

- Mae mudiadau fel Cymorth Cristnogol a Tearfund yn gweithio gyda ffermwyr mewn gwledydd tlawd i'w helpu i gael cynhaeaf gwell. Gallwn gyfrannu arian i helpu'r bobl yma fel y byddan nhw'n medru dathlu'r cynhaeaf gyda ni.
- Mae 'na fanciau bwyd mewn llawer o ardaloedd erbyn hyn sy'n rhoi parcel o fwyd i deuluoedd sy'n brin o arian. Gallwn ni gyfrannu bwydydd i'r banc bwyd i'w helpu nhw, fel y byddan nhw'n medru dathlu'r Cynhaeaf gyda ni.
- Mae 'na newidiadau bach y gallwn ni wneud i'n ffordd o fyw sy'n golygu ein bod yn defnyddio llai o adnoddau'r ddaear. Wrth wneud y pethau bach yma o ddydd i ddydd gallwn wneud yn siŵr fod byd hardd Duw hefyd yn medru ymuno hefo ni i ddathlu'r Cynhaeaf.

**Arweinydd:** A dyma ni'n barod i dderbyn rhoddion y Cynhaeaf gennych, ar gyfer helpu eraill..

**Arweinydd: Gweddiwn**

Dad Nefol,  
Wnei di dderbyn y rhoddion yma o.. (fwyd, arian, dillad)  
fel arwydd o'n cariad  
ac fel arwydd o'n hawydd  
i rannu dy roddion da di gydag eraill.  
Wnei di hefyd fendithio pawb  
fydd yn eu derbyn. Amen.

**I gloi**

**Arweinydd:** Wrth i ni ddod i ddiwedd ein gwasanaeth, tybed ydych chi'n gallu cofio'r 5 gair sy'n ein helpu i ddathlu'r Cynhaeaf?

- Rhyfeddu
- Diolch
- Pam?
- Dibynnu
- Gofalu

**Arweinydd: Gweddïwn**

Dad Nefol,

Wrth i ni fynd adre heddiw,  
helpa ni ddal y geiriau yma yn ein meddyliau,  
i dderbyn y geiriau yma i'n calonnau,  
ac i weithredu'r geiriau yma yn ein bywydau.  
Gofynnwn hyn yn enw Iesu Grist, Amen.

**Arweinydd:** Emyn 4:

**Arweinydd:** Y Fendith.

## Syniadau ar gyfer y Gwasanaeth 'GŴYL 5'

1. Dewiswch Arweinydd a 5 o bobl eraill i ddarllen y 5 llais, os oes modd. Yr arweinydd fydd yn ledio'r emynau a'r gweddiâu a'r cwis. Mae modd rhannu'r deunydd ar gyfer mwy o ddarllenwyr os oes angen neu ar gyfer llai o ddarllenwyr yn ôl y galw.
2. Gellid ysgrifennu neu argraffu'r 5 Gair a'u codi bob yn un yn ystod y Gwasanaeth a'u gosod mewn man amlwg neu ddefnyddio'r pwynt pŵer sydd yn rhan o'r adnoddau.
3. Mae'r pwynt pŵer yn cynnwys lluniau o'r greadigaeth – mae modd dangos y rhain wrth i bobl gyrraedd neu yn ystod yr ail emyn. Mae modd i chi ychwanegu lluniau o lefydd sy'n lleol i chi.
4. Yn yr adran Rhyfeddu, ceir darlleniad allan o Genesis, Pennod 1 a 2 (*beibl.net*) neu gellir defnyddio darlleniad allan o amryw o wahanol lyfrau o straeon beiblaidd addas i blant. Gellir dewis cynnwys meimio fel rhan o'r cyflwyniad gan roi cyfarwyddiadau ac annog pawb i feimio yn ystod y darlleniad. Un ffordd syml ydy dewis un person i arwain y meimio a phawb arall yn dilyn. Rhowch gyfarwyddiadau syml a chlir i bobl pa symudiadau sydd angen eu gwneud cyn dechrau darllen.
5. Mae modd defnyddio clip fideo *Dyma fy Stori* gan Hefin Jones (sydd ar gael ar wefan yr Annibynwyr ([www.annibynwyr.cymru](http://www.annibynwyr.cymru)) neu ar YouTube, Sianel yr Annibynwyr). Yn ystod yr adran gyntaf fyddai'r man mwyaf addas, yn union ar ôl y frawddeg 'Yr hyn sy'n cysylltu'r Cristion a'r Gwyddonydd yw bod y ddau yn gallu rhyfeddu at y byd anhygoel sydd o'u cwmpas' (Os ydych yn teimlo fod y clip yn rhy hir (8 munud a hanner), mae modd dangos y rhan olaf yn unig).
6. Yn yr adran **Diolch**, mae 'na wahoddiad i bobl ddweud am beth y carent ddiolch. Gellid ei adael fel cwestiwn i'w ystyried neu gasglu atebion a'u hysgrifennu ar fflip-chart neu eu teipio a'u dangos ar y sgrîn. Gellid defnyddio eu hatebion i lunio gweddi byrfyfyr syml.
7. Yn yr adran Dibynnu, daw Gweddi'r Arglwydd. Os ydych yn rhoi copi o'r llyfryn i bawb, mae'n cynnwys y weddi yn fersiwn William Morgan a fersiwn beibl.net felly mae modd dewis. Rhaid

peidio rhagdybio fod pawb yn gwybod y weddi ar eu cof, gallwch wahodd pobl i ddweud neu i ddarllen y weddi gyda'i gilydd.

8. Wrth gyrraedd diwedd y gwasanaeth daw cyfle i bobl roi rhoddion. Gallwch yrru pobl ifanc neu blant i gasglu'r rhoddion neu wahodd pawb ymlaen gan chwarae cerddoriaeth yn y cefndir tra bod hyn yn digwydd. Cofiwch deilwra'r geiriad i gynnwys unrhyw ymgyrchoedd neu gasglu sydd ganddoch chi ar y gweill fel eglwys (ee mae modd rhoi dillad neu flancedi sydd wedi eu gwau ar gyfer ffoaduriaid fel rhan o'r offrwm neu barseli o ffrwythau ar gyfer pobl hŷn). Os oes angen i bobl ddod â rhoddion, cofiwch gyhoeddi hyn ymlaen llaw a'i roi ar eich poster.

### **Er gwybodaeth: Yr Atebion i'r Cwis:**

- 1) Sadwrn
- 2) Hyd at 24m o hyd a 190 tunnell
- 3) 71,000km
- 4) Melys, Sur, Chwerw, Hallt ac (mae'r un olaf yn fwy anodd!) Umami
- 5) Mae celloedd unigol yn yr ymennydd ar gyfer pob un o'n cyfeillion a'n teulu

### **Er gwybodaeth: Awgrymiadau am emynau allan o Caneuon Ffydd**

#### **Emyn 1 :**

- 104 Am brydferthwch daear lawr  
127 Ti, O Dduw, foliannwn  
63 Gofala Duw a thad pob dawn

#### **Emyn 2:**

- 81 Pan ddaw pob tymor yn ei dro  
143 Pwy wnaeth y Sêr Uwchben  
155 Ces lygaid ganddo imi weld

#### **Emyn 3:**

- 138 Deuwn ger dy fron yn awr  
150 Diolch iti Iôr, am ddiwrnod braf  
128 Am heulwen glir ac awel fwyn

#### **Emyn 4:**

- 158 O, O, O mor dda yw ein Duw  
140 Fy Arglwydd Dduw ... (Mor Fawr wyt Ti!)  
841 Agor Di ein llygaid, Arglwydd